# YSGOL LLANHARI

## Polisi Cwyn

## Complaints Policy

## Polisi Rhondda Cynon Taf Policy

Pennaeth: Meinir Thomas

Cadeirydd y Llywodraethwyr : S Poole

Dyddiad : Ionawr 2025 9-July-25-

CYFLAWNI TEGWCH A RHAGORIAETH MEWN ADDYSG A GWELL LLES I BAWB
EQUITY AND EXCELLENCE IN EDUCATION AND ENHANCED WELLBEING FOR ALL

**Y Gyfadran Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant**

**Agendwm 8.3**

**Polisi Cwynion yn ymwneud â'r Ysgol**

## Cefndir

1.1 Yn unol ag Adran 29 o Ddeddf Addysg 2002, mae hi'n ofynnol i gyrff llywodraethu pob ysgol sy'n dod o dan adain awdurdodau lleol bennu polisïau ar gyfer ymateb i gwynion a hysbysebu'r cyfryw bolisïau. Adolygodd Llywodraeth Cymru'r polisi cwynion presennol a llunio polisi model newydd ar 1 Rhagfyr 2022. Darparwyd diweddariad pellach ym mis Mawrth 2023.

1.2 Mae polisi cwynion yn ffordd o sicrhau bod modd i unrhyw un sydd â diddordeb yn yr ysgol godi pryder, gyda'r ffydd y caiff y pryder ei drafod yn briodol a bod gwrandawiad iddo, ac yn yr achosion lle bo'r pryder yn cael ei gadarnhau, bod ateb priodol, di-oed i'r pryder.

1.3 Cynghorir yn gryf i'r pennaeth a'r llywodraethwyr i ymgyfarwyddo â'r Polisi Cwynion wedi'i ddiweddaru.

1.4 Mae llywodraethwyr sy'n cael eu henwebu i fod yn aelodau o'r pwyllgor cwynion yn cael eu hatgoffa bod cyfarfodydd yn cael eu trefnu yn unol ag argaeledd yr achwynydd ac felly mae'n bosibl y bydd angen trefnu cyfarfodydd ar fyr rybudd ac yn ystod y dydd.

1.5 Caiff llywodraethwyr sy'n delio â chwynion eu hatgoffa hefyd bod yna amserlenni y mae'n rhaid cadw atyn nhw.

1.6 **Rhaid** cyhoeddi copi o Bolisi Cwynion yr Ysgol ar wefan yr ysgol a dylid hysbysu rhieni/gwarcheidwaid am y broses o wneud cwyn.

1.7 Mae Llywodraeth Cymru yn cynghori cyrff llywodraethu i ystyried eu polisïau cwynion yn ofalus. Os daw her yn erbyn polisïau cwynion corff llywodraethu, bydd angen i'r corff llywodraethu ddangos rhesymau da dros eu gweithredu.

## 2. Beth sydd angen i'r llywodraethwyr ei wneud?

- Yn ôl y gyfraith, mae'n ofynnol bod cyrff llywodraethu yn sefydlu a hysbysebu polisi cwyno.
- Mae cyrsiau hyfforddi ynglŷn â'r broses gwynion ar gyfer ysgolion wedi'u trefnu. Rydyn ni'n annog unrhyw lywodraethwr sy'n gweithredu'n llywodraethwr cyswllt ar y mater yma, neu sy'n aelod o'r pwyllgor cwynion,

fynnu lle ar y cwrs. Mae manylion y cyrsiau i'w cael yn ein Llyfryn Hyfforddiant bob tymor.

### 3. Rhagor o Wybodaeth/Cyngor

Mae rhagor o wybodaeth/cyngor ar gael gan y Gwasanaeth Cymorth i Lywodraethwyr – CymorthiLywodraethwyr@rctcbc.gov.uk neu'ch Swyddog Cymorth i Lywodraethwyr.

DRAFFT

CYFLAWNI TEGWCH A RHAGORIAETH MEWN ADDYSG A GWELL LLES I BAWB
EQUITY AND EXCELLENCE IN EDUCATION AND ENHANCED WELLBEING FOR ALL

# Polisi Cwynion

**Medi 2024**

Cynnwys


Rhagarweiniad

Pryd y dylid defnyddio'r polisi yma

Ydych chi wedi gofyn i ni eto?

Yr hyn rydyn ni'n ei ddisgwyl oddi wrthoch chi

Sut y byddwn ni'n mynd ati i ateb y mater sy'n destun pryder i chi neu'ch cwyn

Ateb i'r mater sy'n destun pryder i chi neu i'ch cwyn

Cam A

Cam B

Cam C

Amgylchiadau arbennig

Ein haddewid i chi

## Rhagarweiniad

Mae Ysgol Llanhari wedi ymrwymo i ymdrin yn effeithiol â chwynion. Ein nod yw egluro unrhyw faterion nad ydych chi'n sicr yn eu cylch. Os yw'n bosibl byddwn ni'n unioni unrhyw gamgymeriadau a wnaethon ni a byddwn ni'n ymddiheuro. Ein nod yw dysgu o gamgymeriadau a defnyddio'r profiad hwnnw i wella'r hyn rydyn ni'n ei wneud.

Fyddwn ni ddim yn goddef unrhyw fath o fwlio ac aflonyddu ac rydyn ni'n hyrwyddo perthnasoedd parchus rhwng disgyblion, rhieni/gwarcheidwaid, staff, a llywodraethwyr.

Y diffiniad o gŵyn yw 'mynegiant o anfodlonrwydd mewn perthynas â'r ysgol, aelod o'i staff neu'r corff llywodraethu sy'n gofyn am ymateb gan yr ysgol'.

Mae'r polisi cwynion yma'n cefnogi ein hymrwymiad ac mae'n ffordd o sicrhau bod modd i unrhyw un sydd â diddordeb yn yr ysgol fynegi pryder, gyda'r ffydd y caiff y pryder ei drafod yn briodol a bod gwrandawiad iddo, ac yn yr achosion lle bo'r pryder yn cael ei gadarnhau, bod ateb priodol, di-oed i'r pryder.

## Pryd y dylid defnyddio'r polisi yma

Pan fydd gyda chi bryderon neu'n cyflwyno cwyn, byddwn ni fel arfer yn ymateb yn y ffordd sy'n cael ei disgrifio isod. Weithiau, mae'n bosibl y bydd gyda chi bryderon am faterion nad ydyn nhw'n cael eu penderfynu gan yr ysgol, ac mewn achosion o'r fath byddwn ni'n dweud wrthych chi i bwy y dylech gyflwyno cwyn. Ar adegau eraill, mae'n bosibl y bydd gyda chi bryderon am faterion yr ymdrinnir â nhw dan bolisïau eraill, ac mewn achosion o'r fath, byddwn ni'n esbonio sut byddwn ni'n ymdrin â'ch pryderon.

Os yw'r mater sy'n destun pryder i chi neu'r gŵyn yn ymwneud â chorff arall yn ogystal â'r ysgol (er enghraifft, yr awdurdod lleol), byddwn ni'n cydweithio â'r corff hwnnw i benderfynu sut i ymdrin â'r mater sy'n achosi pryder i chi.

## Ydych chi wedi gofyn i ni eto?

Os ydych chi'n dod atom ni am y tro cyntaf dylech chi roi cyfle i ni ymateb. Os nad ydych chi'n fodlon ar ein hymateb yna mae modd i chi wneud cwyn gan ddefnyddio'r polisi rydyn ni'n ei disgrifio isod. Mae modd datrys y rhan fwyaf o faterion sy'n destun pryder yn gyflym, drwy siarad â'r unigolyn perthnasol yn yr ysgol, heb fod angen defnyddio polisi ffurfiol.

## Yr hyn rydyn ni'n ei ddisgwyl oddi wrthoch chi

Rydyn ni o'r farn bod gan bob achwynydd yr hawl i gael gwrandawiad, i gael ei ddeall a'i barchu. Mae gan staff a llywodraethwyr yr ysgol yr un hawl. Rydyn ni'n disgwyl i chi fod yn foesgar ac yn gwrtais. Fyddwn ni ddim yn goddef ymddygiad ymosodol, sarhaus neu afresymol.

Fyddwn ni ddim ychwaith yn goddef galwadau afresymol nac achosion lle mae mater yn cael ei wthio mewn modd afresymol, na chwynion blinderus. Mae gyda ni bolisi ar wahân i reoli sefyllfaoedd lle mae rhywun yn gweithredu mewn modd annerbyniol.

Pan fydd rhiant, gwarcheidwad neu randdeiliad yn dechrau dangos arwyddion o ymddygiad afresymol o ddi-baid, dylai'r Pennaeth/y Corff Llywodraethu hysbysu'r unigolyn o'r effaith y mae ei ymddygiad yn ei chael heb oedi. Os yw'r ymddygiad afresymol o ddi-baid yn parhau, efallai y bydd angen cyflwyno cyfyngiadau mewn perthynas â chyfathrebu â'r ysgol a'r staff yn y dyfodol.

Cyfeiriwch at ddogfen 'Rheoli Ymddygiad Afresymol o Barhaus ac Annerbyniol' yr awdurdod lleol i Ysgolion am ragor o wybodaeth.

**Sut y byddwn ni'n mynd ati i ateb y mater sy'n destun pryder i chi neu'ch cwyn**

Byddwn ni'n ystyried eich pryderon a chwynion mewn ffordd agored a theg.

Bydd yr ysgol yn parchu hawliau a theimladau pobl bob amser ac yn gwneud pob ymdrech i ddiogelu gwybodaeth gyfrinachol.

Efallai y bydd angen ymestyn amserlenni ar gyfer delio â'ch pryderon neu gwynion a byddwn ni'n rhoi gwybod i chi am hyn.

Efallai y byddwn ni'n gofyn am gyngor gan yr awdurdod lleol neu'r awdurdod esgobaethol lle bo hynny'n briodol.

Efallai y bydd rhai mathau o bryderon neu gwynion yn codi materion sydd angen cael eu trin mewn ffordd arall (heblaw am y polisi cwyno yma); mewn achosion o'r fath, byddwn ni'n esbonio pam ac yn nodi pa gamau y byddwn ni'n eu cymryd.

**Cwynion am fwlio**

Dylai rhieni/gwarcheidwaid deimlo'n hyderus bod eu plant yn ddiogel yn yr ysgol. Mae canllawiau statudol hawliau, parch, cydraddoldeb ar gyfer cyrff llywodraethu yn disgrifio sut mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i ysgolion ddelio â bwlio, gan gynnwys adrodd am achosion.

Cwynion gan rieni am eu plant yn cael eu bwlio yn yr ysgol yw un o'r cwynion mwyaf cyffredin y mae Llywodraeth Cymru yn ei dderbyn. Yn naturiol, mae hwn yn bwnc emosiynol a sensitif, ac mae'n bwysig iawn bod polisïau gwrth-fwlio yn cael eu dilyn yn gywir fel bod cymuned gyfan yr ysgol yn deall bod yna bolisi dim goddefgarwch ar fwlio o bob ffurf. Bydd hyn yn cyfyngu ar nifer y cwynion a dderbynnir, fodd bynnag efallai y bydd cyrff llywodraethu am fynd i'r afael yn benodol â mater bwlio yn eu polisïau. Mae datganiad ar fwlio ac aflonyddu wedi'i ychwanegu at y polisi enghreifftiol. Dylai cyrff llywodraethu fod yn arbennig o effro i'r mathau cyffredin canlynol o fwlio ac aflonyddu wrth gymhwyso eu polisïau:

- bwlio sy'n gysylltiedig â hil, crefydd a diwylliant

- bwlio homoffobig, deuffobig a thrawsffobig
- bwlio rhywiaethol a rhywiol
- disgyblion ag anableddau a/neu ADY sy'n profi bwlio.

Dylid nodi, er bod y rhestr hon o fathau o achosion yn canolbwyntio'n bennaf ar fwlio cyfoedion rhwng cyfoedion, mae hefyd yn wir y gall staff ysgol, llywodraethwyr ac oedolion eraill fod yn euog o fathau o aflonyddu o'r fath – tuag at ddysgwyr ac oedolion eraill. Dylid trin cwynion am ymddygiad o'r fath gyda'r pwysigrwydd mwyaf ac ymdrin â hwy fel y disgrifir yn y polisi enghreifftiol.

Caiff cwynion dienw eu cofnodi ond mater i'r ysgol benderfynu arno yn ôl ei disgresiwn fydd penderfynu a ddylid ymchwilio i'r gŵyn ai peidio, gan ddibynnu ar natur y gŵyn.

**Ateb i'r mater sy'n destun pryder i chi neu i'ch cwyn**

Mae hyd at dri cham: A, B ac C. Mae modd datrys y rhan fwyaf o gwynion yn ystod Camau A neu B. Mae modd i chi ddod â pherthynas neu rywun yn gwmni i'ch cefnogi ar unrhyw adeg yn ystod y broses ond bydd disgwyl i chi siarad drosoch eich hun, heblaw bod angen cymorth arbennig arnoch chi. Serch hynny, os yw'r achwynydd yn ddisgybl, rydyn ni'n cydnabod ei bod yn rhesymol i'r sawl sy'n dod yn gwmni iddo/iddi siarad ar ei ran a/neu roi cyngor iddo/iddi.

I'r graddau sy'n bosibl, bydd y mater sy'n destun pryder i chi neu'ch cwyn yn cael ei d/thrin yn gyfrinachol. Serch hynny, ar adegau, efallai y bydd angen i'r unigolyn sy'n delio â'r mater sy'n destun pryder i chi neu â'ch cwyn ystyried a oes angen i unrhyw un arall yn yr ysgol gael gwybod am y mater neu'r gŵyn er mwyn ymdrin ag ef/hi'n briodol.

Os ydych chi'n ddisgybl o dan 16 oed a'ch bod am fynegi pryder neu wneud cwyn, byddwn ni'n gofyn eich caniatâd cyn cysylltu â'ch rhiant/rhieni neu'ch gwarcheidwad/gwarcheidwaid. Os ydych chi'n ddisgybl o dan 16 oed a'ch bod chi'n rhan o gŵyn mewn unrhyw ffordd arall, efallai y byddwn ni'n gofyn i'ch rhiant/rhieni neu'ch gwarcheidwad/gwarcheidwaid fod yn bresennol mewn unrhyw sgwrs neu gyfweliad gyda chi.

**Cam A**

Os oes mater yn achosi pryder i chi, yn aml mae modd i chi ei ddatrys yn gyflym trwy siarad ag athro neu aelod o'r Tim Arwain. Dylech fynegi eich pryder cyn gynted â phosibl; fel arfer bydden ni'n disgwyl i chi fynegi'ch pryder o fewn 10 diwrnod ysgol i unrhyw ddigwyddiad.

Po fwyaf y byddwch chi'n oedi, y mwyaf anodd y bydd hi i'r rheiny sy'n delio â'r mater i ymdrin ag ef yn effeithiol.

Os ydych chi'n ddisgybl, mae modd i chi fynegi'ch pryderon i'ch cynrychiolydd ar gyngor yr ysgol, eich tiwtor dosbarth neu athro/athrawes a ddewiswyd i ddelio â phryderon disgyblion. Fydd hyn ddim yn eich atal rhag cyflwyno cwyn yn

ddiweddarach os byddwch chi'n teimlo nad yw'r mater(ion) a godwyd gennych wedi'u trin yn briodol.

Fel arfer, byddwn ni'n ceisio rhoi gwybod i chi beth rydyn ni wedi'i wneud neu'n bwriadu ei wneud am y mater sy'n achosi pryder i chi o fewn 10 diwrnod ysgol, ond os na fydd hyn yn bosibl, byddwn ni'n siarad â chi a chytuno ar amserlen ddiwygiedig gyda chi.

Bydd yr unigolyn sy'n gyfrifol am gadw golwg ar y modd yr eir ati i ymdrin â'r mater sydd wedi achosi pryder i chi neu â'ch cwyn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am y cynnydd sy'n cael ei wneud. Bydd yr unigolyn hefyd yn cadw cofnod o'r mater sy'n destun pryder i chi fel y bo modd cyfeirio at y cofnod hwnnw yn y dyfodol.

**Cam B**

Gan amlaf, bydden ni'n disgwyl i'r mater sy'n destun pryder i chi gael ei ddatrys yn anffurfiol. Os byddwch chi'n teimlo nad yw'r mater cychwynnol a achosodd bryder i chi wedi'i drin yn briodol, dylech chi gyflwyno'ch cwyn yn ysgrifenedig i'r pennaeth.

Bydden ni'n disgwyl ichi anelu at wneud hyn o fewn cyfnod o bum diwrnod ysgol i'r dyddiad y byddwch chi'n cael ymateb i'r mater sydd wedi achosi pryder i chi a hynny am ei bod o fudd i bawb bod cwyn yn cael ei datrys cyn gynted ag y bo modd. Efallai y bydd y ffurflen yn Atodiad A yn ddefnyddiol i chi. Os ydych chi'n ddisgybl byddwn ni'n esbonio'r ffurflen i chi, yn eich helpu i'w chwblhau ac yn rhoi copi i chi.

Os yw'ch cwyn yn ymwneud â'r pennaeth, dylech chi gyflwyno'ch cwyn yn ysgrifenedig i gadeirydd y corff llywodraethu, gan ei hanfon i gyfeiriad yr ysgol, yn gofyn iddo/iddi ymchwilio i'ch cwyn.

Ym mhob achos, mae modd i chi gael help i roi'ch cwyn ar bapur os bydd angen.

Os ydych chi'n rhan o gŵyn mewn unrhyw ffordd, bydd y Dirprwy Benaneth yn esbonio beth fydd yn digwydd a'r cymorth sydd ar gael i chi.

Bydd y Pennaeth yn eich gwahodd i drafod eich cwyn mewn cyfarfod. Bydd amserlenni ar gyfer delio â'ch cwyn yn cael eu cytuno gyda chi. Byddwn ni'n ceisio cyfarfod gyda chi ac esbonio beth fydd yn digwydd, fel arfer o fewn 10 diwrnod ysgol i'r dyddiad y daeth eich llythyr i law. Bydd unigolyn dynodedig yr ysgol yn cynnal yr ymchwiliad ac yn rhoi gwybod i chi'n ysgrifenedig am y canlyniad o fewn 10 diwrnod ysgol o'i gwblhau.

**Cam C**

Os byddwch chi'n dal i deimlo nad yw'ch cwyn wedi'i thrin yn deg, dylech ysgrifennu, drwy gyfeiriad yr ysgol, at gadeirydd y corff llywodraethu, gan amlinellu'ch rhesymau dros ofyn i bwyllgor cwynion y corff llywodraethu ystyried eich cwyn. Does dim rhaid i chi ysgrifennu holl fanylion eich cwyn eto.

Os oes angen cymorth arnoch chi yn lle anfon llythyr neu e-bost, mae modd i chi siarad â chadeirydd y corff llywodraethu neu y Clerc a fydd yn nodi'r hyn gafodd ei drafod a'r hyn a fyddai'n datrys y broblem yn eich barn chi. Bydd gofyn i chi ei arwyddo fel cofnod cywir o'r hyn a gafodd ei drafod. Fel arfer, bydden ni'n disgwyl i chi wneud hyn o fewn pum diwrnod ysgol i'r dyddiad y byddwch chi'n cael ymateb yr ysgol. Byddwn ni'n rhoi gwybod i chi sut y byddwn ni'n ymdrin â'r gŵyn ac yn anfon llythyr atoch chi i gadarnhau hyn. Bydd y pwyllgor cwynion fel arfer yn cynnal cyfarfod gyda chi o fewn 15 diwrnod ysgol o dderbyn eich llythyr.

Bydd y llythyr hefyd yn dweud wrthych erbyn pryd y dylai'r pwyllgor cwynion dderbyn yr holl ddogfennau i'w hystyried. Bydd pawb sy'n rhan o'r gŵyn yn gweld y dogfennau cyn y cyfarfod, a byddwn ni'n sicrhau bod hawliau pobl o ran preifatrwydd gwybodaeth yn cael eu diogelu. Bydd y llythyr hefyd yn cofnodi'r hyn rydyn ni wedi ei gytuno gyda chi ynghylch pryd a ble bydd y cyfarfod yn cael ei gynnal a beth fydd yn digwydd. Efallai y bydd angen newid yr amserlen er mwyn sicrhau bod pawb yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod, er mwyn casglu gwybodaeth neu er mwyn cael cyngor. Mewn achos o'r fath, bydd yr unigolyn sy'n ymdrin â'r gŵyn yn cytuno ar ddyddiad newydd ar gyfer y cyfarfod gyda chi.

Fel rheol, er mwyn delio â'r gŵyn cyn gynted â phosibl, fydd y pwyllgor cwynion ddim yn ad-drefnu'r cyfarfod fwy nag unwaith. Os byddwch chi'n gofyn am ad-drefnu'r cyfarfod fwy nag unwaith, efallai y bydd y pwyllgor o'r farn y byddai'n rhesymol gwneud penderfyniad ar y gŵyn yn eich absenoldeb i osgoi oedi diangen.

Byddwn ni'n anelu at ysgrifennu atoch o fewn 10 diwrnod ysgol i'r cyfarfod i esbonio canlyniad ystyriaethau pwyllgor cwynion y corff llywodraethu.

Pwyllgor cwynion y corff llywodraethu fydd yn penderfynu'n derfynol ar gwynion.

**Amgylchiadau arbennig**

Pan wneir cwyn am unrhyw un o'r bobl neu'r grwpiau/cyrff a ganlyn, bydd y polisi cwyno yn cael ei ddefnyddio mewn ffordd wahanol.

Cwynion am y pennaeth

Dylid rhoi unrhyw gŵyn am y pennaeth i gadeirydd y llywodraethwyr a all ei dirprwyo i lywodraethwr arall a fydd yn ymchwilio iddi. Mae'n bwysig ceisio sefydlu a ddylid ymdrin â'r gŵyn o dan bolisi ar gyfer gallu staff, cwynion staff, disgyblu staff neu amddiffyn plant. Os ydy, yna mae'r polisïau hynny yn cael blaenoriaeth. Os na, dylai'r gŵyn fynd rhagddi dan Gam B y polisi cwynion enghreifftiol. Os na chaiff y gŵyn ei datrys, gall yr achwynydd fynd â hi i Gam C. Ni all unrhyw lywodraethwr sy'n ymwneud â Cham B fod yn aelod o'r pwyllgor yng Ngham C.

Cwynion am gadeirydd y Corff Llywodraethu

Dylai'r is-gadeirydd ymdrin â chwyn am gadeirydd y llywodraethwyr neu ei dirprwyo i lywodraethwr arall. Dylai Cam B ymlaen o'r polisi cwynion enghreifftiol fod yn berthnasol. Gan ddibynnu ar natur y gŵyn, dylai'r is-gadeirydd hysbysu'r

awdurdod lleol (ac os yw'n briodol yr awdurdod esgobaethol) bod cwyn wedi'i gwneud a pha gamau a gymerir gan bwy. Os caiff y gŵyn ei chadarnhau, yna dylai'r pwyllgor cwynion ystyried a oes angen iddo argymell i'r corff llywodraethu llawn y dylid diswyddo'r cadeirydd, a phenodi llywodraethwr arall i'r rôl honno.

Cwynion am gadeirydd y Corff Llywodraethu a'r pennaeth

Dylid ymdrin â'r gŵyn yn yr un modd â chwyn am gadeirydd y llywodraethwyr neu'r pennaeth, gan yr is-gadeirydd neu ei ddirprwy.

Cwynion am gadeirydd ac is-gadeirydd y corff llywodraethu

Dylai unrhyw gwyn am gadeirydd ac is-gadeirydd y corff llywodraethu gael ei chyfeirio at glerc y corff llywodraethu a fydd yn hysbysu cadeirydd y pwyllgor cwynion.

Dylai cadeirydd y pwyllgor cwynion drefnu gwrandawiad pwyllgor cwynion yn unol â Cham C. Os mai cadeirydd y pwyllgor cwynion yw cadeirydd neu is-gadeirydd y corff llywodraethu, yna dylid cyfeirio'r gŵyn at aelod arall o'r pwyllgor cwynion a rhaid i'r llywodraethwr gymryd lle'r cadeirydd a/neu'r is-gadeirydd ar y pwyllgor cwynion.

Llywodraethwr neu grŵp o lywodraethwyr:

Os gwneir cwyn yn erbyn llywodraethwr neu grŵp o lywodraethwyr, dylid ei chyfeirio at gadeirydd y corff llywodraethu (ar yr amod nad y cadeirydd yw testun y gŵyn). Dylai'r cadeirydd neu lywodraethwr a ddewisir gan y cadeirydd ymchwilio (dylai Cam B ymlaen o'r polisi cwynion enghreifftiol fod yn berthnasol). Os caiff y gŵyn ei chadarnhau, dylid ei chyfeirio at y pwyllgor cwynion i ystyried a ddylid argymell i'r corff llywodraethu y dylai rhai neu bob un o'r llywodraethwyr sy'n destun y gŵyn ymddiswyddo neu gael eu diswyddo o'r corff llywodraethu.

Dylid cymryd gofal i sicrhau nad oes unrhyw lywodraethwyr sy'n gysylltiedig â'r gŵyn yn cymryd rhan yn y gwaith o ymchwilio iddi, yn aelodau o'r pwyllgor cwynion nac yn cymryd rhan mewn unrhyw drafodaeth gan gorff llywodraethu a phenderfyniadau ynghylch llywodraethwyr yn ymddiswyddo neu'n cael eu diswyddo.

Os yw'r cadeirydd a'r is-gadeirydd yn rhan o'r grŵp o lywodraethwyr sy'n destun y gŵyn, dylid cyfeirio'r gŵyn at glerc y corff llywodraethu a ddylai fynd ymlaen fel y disgrifiwyd yn flaenorol ar gyfer cwynion am gadeirydd ac is-gadeirydd y corff llywodraethu.

Os yw cymaint o lywodraethwyr yn destun cwyn fel nad oes digon ar ôl i ffurfio pwyllgor cwynion, neu i ddarparu cworwm ar gyfer unrhyw benderfyniadau dilynol y gallai fod angen i'r corff llywodraethu cyfan eu gwneud, yna dylid defnyddio polisi'r corff llywodraethu cyfan a ddisgrifir isod.

Y corff llywodraethu cyfan:

Os derbynnir cwyn am y corff llywodraethu cyfan, dylid ei chyfeirio i'r clerc. Dylai'r clerc roi gwybod i'r awdurdod lleol, ac i'r awdurdod esgobaethol, cadeirydd y corff llywodraethu a'r Pennaeth pan fydd hynny'n briodol; Argymhellir bod yr awdurdod lleol/esgobaethol yn cytuno ar drefniadau gyda'r corff llywodraethu i drafod a chynnal ymchwiliad i'r gŵyn. Gall fod sail i ymchwiliad annibynnol, dylai'r awdurdod lleol gynghori, a chynghorir cyrff llywodraethu'n gryf i weithredu ar y cyngor hwnnw. Gallai'r awdurdod lleol ymchwilio i'r gŵyn neu drefnu ymchwiliad gan drydydd parti. Ni ddylai'r clerc na staff yr ysgol gynnal ymchwiliad.

Os bydd ymchwiliad yn awgrymu bod sail i'r gŵyn, dylai'r awdurdod lleol sicrhau cytundeb y corff llywodraethu i sefydlu pwyllgor cwynion allanol.

Dylai pwyllgor cwynion allanol weithredu fel pwyllgor cwynion a fyddai'n gweithredu ar Gam C y polisi cwynion enghreifftiol.

Os nad yw'r corff llywodraethu'n cydweithredu â'r awdurdod neu bwyllgor a sefydlwyd gan yr awdurdod i ystyried y gŵyn neu'n gweithredu yn erbyn neu'n methu â gweithredu ar gyngor rhesymol, yna byddai'r awdurdod lleol yn cael ei gyfiawnhau o ran ystyried defnyddio ei bwerau rheoleiddio i ymyrryd. Os yw cwyn yn darparu tystiolaeth bod corff llywodraethu yn perfformio'n wael, yn ymddwyn yn afresymol, neu'n torri'r gyfraith, yna gall awdurdod lleol ddefnyddio ei bwerau ymyrryd (yn ddoeth, mewn ymgynghoriad ag awdurdodau esgobaethol yn achos ysgolion â chymeriadau crefyddol).

<u>Cwynion am aelodau o staff yr ysgol, gan gynnwys unrhyw swyddog cwynion dynodedig.</u>

Dylid trosglwyddo unrhyw gŵyn am aelod o staff i'r pennaeth. Gall y pennaeth benderfynu dirprwyo ymchwiliad i uwch aelod arall o staff o dan Gam A y polisi, neu ymchwilio iddo ei hun o dan Gam B. Os nad yw'r achwynydd yn hapus â'r canlyniad, gall symud ymlaen drwy'r polisi cwynion nes bod Cam C wedi ei gwblhau. Os oes materion o natur disgyblu neu allu staff, rhaid dilyn y polisïau hynny.

**Yr Awdurdod Lleol**

Dylai awdurdod lleol fodloni ei hun bod gan yr holl ysgolion y mae'n eu cynnal bolisïau cwynion digonol sy'n cael cyhoeddusrwydd. Caiff awdurdod lleol ddarparu pa gyngor bynnag y mae'n ei ystyried yn briodol i gyrff llywodraethu. Gall hefyd ddarparu dogfennau canllaw yn ychwanegol at y cyhoeddiad yma.

Gall corff llywodraethu geisio cyngor gan awdurdod lleol am ei bolisi cwynion neu sut i drin cwyn neu am gymorth i ymchwilio i gŵyn. Fodd bynnag, mae'r cyfrifoldeb statudol am ymdrin â chwynion yn parhau gyda'r corff llywodraethu.

Dylai'r Awdurdod Lleol ystyried unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu: nad oes gan gorff llywodraethu polisi cwyno; bod ei bolisi cwyno yn annigonol; nad yw wedi dilyn ei bolisi; neu fod ganddo weithdrefn ddiffygiol oherwydd mai'r bobl y mae'r gŵyn yn eu trafod sy'n ymchwilio iddi neu sy'n penderfynu arni. Os nad oes modd rhoi polisi ysgol ar waith, os oes rheswm dilys i amau ei annibyniaeth, neu mewn amgylchiadau rhesymol eraill, caiff awdurdod lleol drefnu, yn sgil cytuno ar hynny â'r corff llywodraethu, i banel o bersonau annibynnol ystyried cwyn.

Gall awdurdod lleol ddefnyddio ei bwerau ymyrryd o dan Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 os yw'r broses o lywodraethu neu reoli ysgol yn annigonol.

**Yr awdurdodau esgobaethol**

Gall awdurdodau esgobaethol roi cyngor i ysgolion y maen nhw'n penodi llywodraethwyr iddynt, a gall ysgolion o'r fath ofyn am gyngor gan yr awdurdodau esgobaethol. Gall ysgolion â chymeriad crefyddol gytuno i'r awdurdod esgobaethol ymchwilio i gŵyn neu drefnu i drydydd parti wneud hynny.

**Llywodraeth Cymru**

Os bydd Llywodraeth Cymru yn derbyn cwyn am ysgol, bydd yn cynghori y dylid cyfeirio'r gŵyn at yr ysgol i'w hystyried o dan bolisi cwynion yr ysgol. Os yw'n ymddangos bod y corff llywodraethu yn methu ag ymdrin â'r gŵyn, bydd Llywodraeth Cymru yn cynghori bod y gŵyn yn cael ei dwyn i sylw'r awdurdod lleol er mwyn darparu cymorth neu gymryd camau.

**Comisiynydd Plant Cymru**

Mae gan Gomisiynydd Plant Cymru wasanaeth cyngor a chymorth i blant a phobl ifainc, a'r bobl sy'n gofalu amdanyn nhw. Gall plant a phobl ifainc a'u gwarcheidwaid fynd at y Comisiynydd Plant pan fydd angen cyngor a chymorth arnynt. Nid cwnselwyr yw swyddogion y Comisiynydd Plant ond maent yn gweithio gyda phlant, pobl ifainc ac oedolion i ddod o hyd i ateb. Mae modd cysylltu â Chomisiynydd Plant Cymru drwy radffôn: 0800 801 1000 (Dydd Llun i ddydd Gwener 9.00am tan 5.00pm), testun: 80 800 (rhowch COM ar ddechrau'ch neges) neu e-bost: cyngor@complantcymru.org.uk

Dydy'r Comisiynydd Plant ddim yn cymryd lle llywodraethwyr na pholisïau cwynion cyrff llywodraethu. Caiff y Comisiynydd, o dan rai amgylchiadau, archwilio achosion unigol, ac er mwyn gwneud hynny efallai y bydd angen gwybodaeth, esboniadau a chymorth gan lywodraethwyr, swyddogion ac aelodau awdurdodau lleol, a staff ysgol.

Caiff y Comisiynydd hefyd, at ddibenion adolygu a monitro trefniadau a wneir ar gyfer ymdrin â chwynion, chwythu'r chwiban ac eiriolaeth, neu absenoldeb trefniadau o'r fath, ei gwneud yn ofynnol i lywodraethwyr, swyddogion ac aelodau awdurdodau lleol, a staff ysgolion, gael gwybodaeth. Caiff y Comisiynydd lunio

adroddiadau gydag argymhellion ond nid oes ganddo'r pŵer i'w gwneud yn ofynnol eu gweithredu, er y gall roi cyhoeddusrwydd i unrhyw fethiant i wneud hynny.

**Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**

Nid oes gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) unrhyw rôl mewn perthynas â chwynion sy'n dod o fewn cwmpas y polisïau cwynion a ddisgrifir yn y canllaw yma. Fodd bynnag, mae canllawiau ar gael ar wefan OGCC ar gyfer achwynwyr sy'n teimlo nad yw eu cwyn i gorff cyhoeddus wedi cael ei thrin yn effeithiol.

**Cyngor y Gweithlu Addysg**

Nid oes gan Gyngor y Gweithlu Addysg (ECW) unrhyw rôl o ran polisïau cwynion cyrff llywodraethu a ddisgrifir yn y canllawiau yma.

**Ein haddewid i chi**

Ym mhob achos, bydd yr ysgol a'r corff llywodraethu'n sicrhau bod cwynion yn cael eu trin mewn ffordd agored a theg, heb ragfarn.

Byddwn ni'n cymryd eich pryderon a'ch cwynion o ddifrif ac, os ydyn ni wedi gwneud unrhyw gamgymeriadau, byddwn ni'n ceisio dysgu oddi wrthyn nhw.

Os oes angen help arnoch chi i leisio'ch pryderon, byddwn ni'n ceisio'ch cynorthwyo. Os ydych chi'n berson ifanc ac os oes angen cymorth ychwanegol arnoch chi, efallai y byddwch chi am gysylltu â MEIC, sef llinell gymorth genedlaethol sy'n cynnig gwasanaethau eirioli a chyngor i blant a phobl ifainc. Mae cyngor a chymorth ar gael hefyd oddi wrth Gomisiynydd Plant Cymru.

Mae modd cysylltu â MEIC drwy radffôn: 0808 802 3456 neu neges destun: 84001. Mae'r gwasanaeth yma ar gael 24 awr y dydd.

Mae modd cysylltu â Chomisiynydd Plant Cymru drwy radffôn: 0808 801 1000 (Dydd Llun i ddydd Gwener 9.00am tan 5.00pm), testun: 80 800 (rhowch COM ar ddechrau'ch neges) neu e-bost: **cyngor@complantcymru.org.uk**
Cafodd y polisi yma ei adolygu gan y corff llywodraethu ar 9.7.25

Wedi'i lofnodi gan gadeirydd y corff llywodraethu ar ran y corff llywodraethu:

..........................................................................................

.................................. Dyddiad cymeradwyo:

.................................................................. .................. (gan y corff llywodraethu llawn)

Dyddiad yr adolygiad:

...............................................................................................

Dyddiad anfon at yr awdurdod lleol: .............................................

[does dim gofyniad statudol i wneud hyn, ond mae'n arfer da]

# ATODIAD A: Ffurflen Gwyno Enghreifftiol

Y person sydd â'r gŵyn neu'r pryder a ddylai lenwi'r ffurflen yma. Serch hynny, os ydych chi'n gwneud cwyn ar ran rhywun arall, llenwch adran B hefyd. Nodwch, cyn bwrw ymlaen â'r gŵyn, bydd angen i ni fod yn fodlon eich bod chi â'r awdurdod i weithredu ar ran y person dan sylw. Os ydych chi'n ddisgybl, bydd yr ysgol yn eich helpu i lenwi'r ffurflen yma, yn ei hesbonio i chi ac yn rhoi copi ohoni i chi pan fydd wedi'i chwblhau.

Eich manylion

Cyfenw

Enw(au) Cyntaf

Teitl: Mr/Mrs/Ms/Arall

Cyfeiriad a chod post

Rhif ffôn yn ystod y dydd

Rhif ffôn symudol

Cyfeiriad e-bost

Sut byddai'n well gennych i ni gysylltu â chi?

Os ydych chi'n gwneud cwyn ar ran rhywun arall, beth yw manylion y person hwnnw?

Enw llawn y person

Cyfeiriad a chod post

Beth yw'ch perthynas â'r person?

Pam eich bod chi'n cyflwyno cwyn ar ran y person?

Ynglŷn â'ch cwyn (parhewch â'ch atebion ar ddalenni papur ar wahân os oes angen)

Enw'r ysgol rydych chi'n cwyno amdani

Yn eich barn chi, beth wnaethon nhw o'i le neu beth fethon nhw â'i wneud?

Disgrifiwch sut yr effeithiwyd arnoch chi

Pryd daethoch chi'n ymwybodol o'r broblem am y tro cyntaf?

Os oes mwy na 3 mis wedi mynd heibio ers i chi fod yn ymwybodol o'r broblem, dywedwch pam na wnaethoch chi gwyno cyn hyn.

Yn eich barn chi, beth ddylen ni ei wneud i gywiro'r sefyllfa?

Ydych chi eisoes wedi cyflwyno eich cwyn i aelod o staff?

Os felly, rhowch fanylion bras o sut a phryd y gwnaethoch chi hynny.

Llofnod yr achwynydd: Dyddiad:

Llofnodwch os ydych chi'n cyflwyno cwyn ar ran rhywun arall:

Llofnod: Dyddiad:

Anfonwch y ffurflen yma ac unrhyw ddogfennau i gefnogi eich cwyn at:

[Rhowch enw'r sawl sy'n ymdrin â'r gŵyn]

[Rhowch gyfeiriad a manylion cyswllt y sawl sy'n ymdrin â'r gŵyn]

Defnydd swyddogol

Dyddiad anfon cydnabyddiaeth: Gan bwy:

Cyfeiriwyd y gŵyn at: Dyddiad: